# PWYLLGOR SAFONAU

## DYDD LLUN, 12EG TACHWEDD, 2018

**YN BRESENNOL:** Mr M.A. Morgan [Cadeirydd]

**Aelodau Annibynnol:**
Mrs M. Dodd, Mrs J. James a Mr A. Williams

**Aelod Cymunedol:**
Y Cynghorydd Tref P. Rogers

**Y Cynghorydd:**
S.J.G. Gilasbey

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Ms L. Rees-Jones | - | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Mr R. Edgecombe | - | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 10.35 a.m.**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs Daphne Evans, Aelod Annibynnol a'r Cynghorydd G.B. Thomas.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

### 3. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORWYR CEFIN CAMPBELL GARETH THOMAS, JEAN LEWIS, KEN HOWELL, TYSSUL EVANS, MANSEL CHARLES, EIRWYN WILLIAMS, ANN DAVIES AC ARWEL DAVIES

Ystyriodd y Pwyllgor geisiadau a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Cefin Campbell, Gareth Thomas, Jean Lewis, Ken Howell, Tyssul Evans, Mansel Charles, Eirwyn Williams, Ann Davies ac Arwel Davies am ganiatáu gollyngiad yn unol â darpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â materion yn ymwneud â ffermio ac amaeth neu sy'n debygol o gael effaith ar y maes hwnnw.

Adroddwyd bod cais am ollyngiad wedi'i wneud gan bob Cynghorydd oherwydd y gallent, o bosibl, fod â buddiant personol mewn materion o'r fath yn rhinwedd paragraffau 10(2)(a)(i), 10(2)(a)(iv), 10(2)(b)(i) a 10(2)(b)9ii) o'r Côd Ymddygiad yn yr ystyr eu bod i gyd naill ai'n ffermio yn y Sir, yn berchen ar dir fferm sy'n cael ei ffermio gan bobl eraill, neu fod ganddynt gymdeithion personol agos sy'n ffermio.

Hefyd yr oedd buddiant yr aelodau yn rhagfarnol gan y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd oedd yn gwybod y ffeithiau perthnasol ystyried bod y buddiant mor

arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ddylanwadu ar farn y cynghorwyr ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorwyr wedi gofyn am ollyngiad ar ddwy sail a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 sef:-

(1) Na fyddai cyfranogiad y Cynghorwyr mewn materion o'r fath yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gyflawni gwaith y Cyngor;
(2) Bod modd cyfiawnhau eu cyfranogiad oherwydd eu harbenigedd penodol.

Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y Pwyllgor fod y Cynghorwyr Gareth Thomas a Jean Lewis eisoes wedi cael gollyngiad mewn perthynas â'r materion hyn ym mis Mehefin 2016 hyd nes etholiadau'r Awdurdod Lleol ym mis Mai 2017.

Roedd yr holl Gynghorwyr a enwyd uchod (ac eithrio'r Cynghorydd Campbell) wedi cael gollyngiad mewn perthynas â'r materion hyn o fis Medi 2017 hyd at fis Medi 2018. Roedd y Cynghorydd Arwel Davies wedi cael gollyngiad o fis Rhagfyr 2017 i fis Medi 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**3.1 ganiatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2(d) ac (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i'r Cynghorwyr Sir Cefin Campbell, Gareth Thomas, Jean Lewis, Ken Howell, Tyssul Evans, Mansel Charles, Eirwyn Williams, Ann Davies ac Arwel Davies i SIARAD, OND NID PLEIDLEISIO, A CHYFLWYNO SYLWADAU YSGRIFENEDIG yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â ffermio ac amaeth neu sy'n debygol o gael effaith ar y maes hwnnw, tan 31 Medi 2019;**
**3.2 bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro i ganiatáu unrhyw geisiadau pellach am ollyngiad o'r fath hyd at a chan gynnwys 31 Mawrth, 2019.**

____________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**